



## **Yna yn y wers:**

Gofynnwch i'r bobl ifanc addurno'r pysgod. Wedi eu haddurno gosodwch hwy i sefyll ar y llawr (y ddau gynffon yn cyffwrdd y llawr) ac mewn grwpiau o 3, defnyddio'r wialen i geisio codi'r pysgod oddi ar y llawr drwy'r llygaid. Fe allant amseru ei gilydd i weld pwy sy'n ei godi yn yr amser byrraf.

Gweithgaredd 2. (ar gyfer grwpiau mawr o bobl ifanc)

Addawodd Iesu i Simon Pedr y byddai'n dod yn bysgotwr dynion, golygai hyn – galw ar bobl eraill i ddod yn ddisgyblion i Iesu. Beth am gêm o 'bysgota pobl' lle mae'r arweinydd yn gweiddi rhif rhwng 1–6 allan, ac mae'n rhaid i'r bobl ifanc 'bysgota' eraill i sefyll mewn grŵp o'r maint hwnnw. Os oes rhai yn weddill, heb fod yn rhan o grŵp, maent hwy allan o'r gêm. Dylid parhau nes bod dau unigolyn ar ôl. Gellir chwarae'r gêm fwy nac unwaith.

## **Amser i addoli:**

Efallai nad yw Iesu'n gofyn i ni adael popeth i'w ddilyn, ond mae o yn ein galw ni heddiw yn yr un ffordd a Simon Pedr a'i ffrindiau. Oes yna unrhyw beth sy'n ein rhwystro ni rhag rhoi ein ffydd ynddo?

Gofynnwch i'r bobl ifanc pa fath o bethau all fod yn rhwystr iddynt i ddilyn Iesu Grist (gallent ysgrifennu ar 'bost-it' os ydynt yn swil.) Fe ellir gweddïo drwy'r rhestr hon, a gofyn i Dduw ddangos i'r bobl ifanc unrhyw beth sy'n rhwystr iddynt ei ddilyn ef, a dangos iddynt yr holl fendithion sydd i'w cael o adael popeth i ddilyn Iesu. Amen